Ysgol Uwchradd Tywyn- Canlyniadau TGAU 2019

Unwaith eto mae disgyblion Ysgol Uwchradd Tywyn yn dathlu blwyddyn arall llwyddiannus yn eu harholiadau TGAU, er gwaethaf her y manylebau TGAU newydd.

Mae gwaith caled disgyblion a staff, ynghyd a chefnogaeth barhaol rhieni, wedi talu i ffwrdd unwaith eto wrth i'r ysgol lwyddo i gynnal ei safonau uchel wrth sicrhau fod 98% o ddisgyblion wedi sicrhau o leiaf 5 cymhwyster TGAU.

Roedd perfformiad canmoladwy iawn mewn Gwyddoniaeth, Saesneg a Mathemateg, gyda 84% o ddisgyblion yn sicrhau graddau TGAU A*-C mewn Gwyddoniaeth, 66% mewn Saesneg a 64% mewn Mathemateg. Gyda'r pwyslais genedlaethol a rhyngwladol gynyddol ar y Fagloriaeth Gymreig, mae'r ysgol yn hapus dros ben fod 96% o ddisgyblion wedi cyrraedd y safon yma eleni.

Roedd perfformiadau unigol ardderchog, gyda 12% o ddisgyblion yn llwyddo cael 6 neu rhagor gradd A*.

Dywedodd y Pennaeth Mrs Helen Lewis:

"Rhaid llongyfarch y mwyafrif llethol o'r myfyrwyr ar eu hymdrech, dyfalbarhad a chyflawniad dros y ddwy flynedd diwethaf, ac wrth gwrs rydym yn dymuno'r gorau iddynt yn y cam nesaf o'u haddysg neu yrfa ac yn gobeithio y bydd eu hamser yn Ysgol Uwchradd Tywyn yn cael ei gofio yn hoffus o ran yr ethos 'tîm' gyda phawb yn gweithio tuag at yr un gôl – pob myfyriwr yn cyflawni i'w llawn botensial ym mhob ffordd bosib."